

Taliadau i Gynghorwyr

Os ydych yn ystyried sefyll mewn etholiad i fod yn gynghorydd, dyma wybodaeth am y taliadau y byddai gennych hawl iddynt.

Ydy cynghorwyr yn cael eu talu?

Ydyn. Mae gan holl aelodau etholedig prif awdurdodau Cymru hawl i gael cyflog blynyddol sylfaenol, sydd wedi'i bennu'n £14,218 ar gyfer 2020-21. Mae aelodau sydd â hyfrifoldebau ychwanegol, fel aelod gweithredol neu gadeirydd pwyllgor, yn cael cyflog uwch.

Mae treth incwm yn cael ei chodi ar y taliadau hyn. Mae treuliau rhesymol hefyd yn cael eu talu. Bydd manylion y taliadau sy'n cael eu gwneud i aelodau unigol yn cael eu cyhoeddi gan yr awdurdod lleol bob blwyddyn, er mai dim ond fel cyfanswm cyffredinol y bydd ad-daliadau costau gofal yn cael eu cyhoeddi. Mae lefelau'r taliadau i'w gweld yn Adroddiad Blynyddol y Panel. Dilynwch y ddolen isod.

Oes cefnogaeth arbennig ar gael?

Oes. O dan ddeddfwriaeth mae'n rhaid i awdurdodau wneud trefniadau ar gyfer aelodau sydd ag anghenion cymorth penodol, i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel cynghorwyr. Yn ogystal, caiff aelodau hawlio ad-daliad o gost gofalu am rywun sy'n ddibynnol arnynt, tra byddant hwy'n gwneud eu dyletswyddau fel aelodau.

Oes rhaid i gynghorydd dderbyn taliadau?

Mae'r Panel yn annog cynghorwyr i dderbyn eu cyflog a'u treuliau, ond gallant wrthod y taliad neu ran ohono drwy ysgrifennu'n bersonol ac yn unigol at y swyddog priodol yn eu hawdurdod lleol ar unrhyw adeg yn ystod eu hamser yn y swydd.

Pam mae cynghorwyr yn cael taliadau?

Mae bod yn gynghorydd yn rôl feichus a phrysur. Dylai pawb fod yn rhydd ac wedi'u galluogi i gymryd rhan weithredol mewn democratiaeth leol, beth bynnag yw eu hoedran, rhyw, incwm, anabledd neu gyfrifoldebau teuluol.

Mae cynrychiolaeth eang ac amrywiol o bobl yn sicrhau bod aelodaeth awdurdodau lleol yn fwy cynrychioliadol o'r boblogaeth, a bod penderfyniadau'n fwy democrataidd. Mae lefel resymol o daliadau yn galluogi unrhyw un i gymryd rhan.

Pwy sy'n pennu'r taliadau?

Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol sy'n pennu lefelau'r taliadau y gall aelodau awdurdodau lleol Cymru eu hawlio, o aelodau cyffredin i arweinydd y cyngor.

Y panel sydd hefyd yn penderfynu ar lefel y taliadau i aelodau Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chynghorau tref a chymuned.

Eisiau mwy o wybodaeth?

Mae manylion pellach ar gael ar wefan y Panel, lle gallwch ddarllen yr Adroddiad Blyneddol sy'n cael ei gyhoeddi bob mis Chwefror yn dilyn ymgynghoriad.

Mae adran cwestiynau cyffredin hefyd i'w gweld ar y wefan.

www.llyw.cymru/irpwsb/home